

Sesiynau Teuluol Chwarae yn y Parc

Cerdyn adroddiad

Disgrifiad

Sesiynau Chwarae yn y Parc ar draws saith safle yn y fwrdeistref sy'n defnyddio mannau gwyrdd diogel ble gall plant a'u teuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog, atyniadol. Mynychodd dros 2,500 o gyfranogwyr sesiynau Chwarae yn y Parc.

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Aseiad Digonolrwydd Chwarae'r awdurdod lleol
- Cynllun strategol y blynyddoedd cynnar
- Darpariaeth chwarae dros y gwyliau

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Swyddog Digonolrwydd Chwarae
- Y blynyddoedd cynnar
- Yr adran parciau
- Yr heddlu/gwasanaeth tân
- Chwaraeon a hamdden

Adnoddau/galluogwyr

- Mannau gwyrdd mwy diogel
- Staff y blynyddoedd cynnar
- Pebyll mawr (er mwyn caniatáu i'r sesiynau gael eu rhedeg mewn tywydd gwael)
- Rhannau rhydd
- Offer chwarae aflêr
- Celf a chrefft
- Darparwyr mewnol/allanol
- Darpariaeth chwarae dros y gwyliau ac ariannu'r blynyddoedd cynnar

Proses

- Grŵp llywio Chwarae yn y Parc (Swyddog Digonolrwydd Chwarae, blynyddoedd cynnar)
- Archebu cyfleusterau trwy'r adran parciau
- Archebodd y Swyddog Digonolrwydd Chwarae bartneriaid allweddol i gynorthwyo gyda'r trosglwyddo (er enghraifft, y gwasanaeth tân, yr heddlu a chefn gwlad)
- Hwylusodd staff blynyddoedd cynnar weithgareddau megis, chwarae aflêr, rhannau rhydd a chrefftau
- Mae'r holl weithgareddau'n rhai rhad er mwyn rhoi syniadau i deuluoedd am bethau y gallant eu gwneud gartref hefyd.

Heriau

- Oherwydd y tywydd, gohiriwyd rhai sesiynau am resymau diogelwch
- Mynediad i rai o'r parciau
- Staffio

Allbwn/deilliannau

- Darparu cyfleoedd chwarae mewn ardaloedd difreintiedig
- Rhoi syniadau i deuluoedd am weithgareddau chwarae rhad y gallant eu gwneud gartref
- Hybu gwerth chwarae a'r adran chwarae
- Dod a gwahanol randdeiliaid ynghyd i hybu a throsglwyddo chwarae



www.chwarae.cymru